



# Safle Carafanio a Gwersylla

## Y Rheolau a'r Rheoliadau

**Amser Cyrraedd:** O 1.00pm ymlaen

**Amser Gadael:** Cyn 12 canol dydd

### **Gwybodaeth Neilltuo Lle:-**

#### **Parc Gwledig Pen-bre**

Pen-bre, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA16 0EJ

Rhif ffôn: 01554 742435

E-bost: [camppembrey@sirgar.gov.uk](mailto:camppembrey@sirgar.gov.uk)

## **Gwybodaeth a Rheolau**

Rydym eisiau i bawb gael amser wrth eu bodd ac amser diogel ym Mharc Gwledig Pen-bre a gofynnwn i'n holl gwsmeriaid ddilyn y rheolau a'r rheoliadau hyn.

Mae'r Rheolau a'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i Garafannau Tymhorol, i Garafannau Dros Nos ac i Wersyllwyr oni nodir yn wahanol.

### **Eich cyfrifoldebau**

Y sawl sy'n neilltuo lle sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o'i grŵp, gan gynnwys unrhyw ymwelwyr, anifeiliaid anwes neu blant, yn cydymffurfio â'r rheolau a'r amodau neilltuo lle.

**Sicrhewch fod pob aelod o'ch grŵp yn gyfarwydd â'r rheolau safle hyn.**

### **Methu â chydymffurfio â'r rheolau**

Bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau yn y daflen hon yn arwain at gymryd camau priodol, a allai gynnwys:

- A. Rhybudd llafar gan staff y Cyngor;
- B. Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol i adael y safle;
- C. Gwrthod neilltuo lle yn y dyfodol;
- D. Cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Heddlu.

Bydd y camau a gymerir yn adlewyrchu natur a difrifoldeb digwyddiad ac mae'n bosibl na fyddant yn dilyn y drefn a nodir uchod.

**Ni fydd** unrhyw un y gofynnir iddo adael **yn cael iawndal nac ad-daliad.**

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd unigolion rhag defnyddio'r Parc yn y dyfodol os yw'r cwsmer neu aelod o'r grŵp wedi torri'r Telerau, neu wedi peryglu llesiant a diogelwch ymwelwyr eraill â'r parc a'i staff.

Os bydd unrhyw gwsmer yn cyflawni unrhyw drosedd neu gamwedd yn y parc, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wahardd yr unigolyn hwnnw o'r parc neu ganslo'r cytundeb i feddiannu'r safle. Bydd darpariaethau'r cymal hwn hefyd yn berthnasol lle na chyflawnir trosedd ond lle gwneir gweithgareddau fel achosi niwsans, aflonyddu domestig neu dwrw ac ati.

Mae'n rhaid talu am unrhyw ddifrod yn llawn cyn gadael y parc.

Os na fyddwch yn symud eich carafán/cartref modur/pabell, bydd gan y Cyngor yr hawl i symud/storio unrhyw eitemau o'r fath ac adennill y costau oddi wrthyhch. Ni fydd y Cyngor yn atebol am unrhyw anaf, difrod neu golled a achosir i unrhyw eitemau o'r fath na'u cynnwys yn ystod y broses o'u symud a'u storio.

### Cerbydau

Mae'n rhaid ichi roi manylion cofrestru eich cerbyd inni. Caniateir un car yn unig fesul llain. Codir ffi ar geir ychwanegol yn ôl y gyfradd bresennol fesul noson. Mae'n rhaid i gerbydau ychwanegol barcio yn y manau parcio dynodedig ac nid wrth ochr carafannau a phebyll.

Gofynnir i yrwyr gadw at derfyn cyflymder o 5mya (8 cilomedr yr awr) ym mhob rhan o'r safle gwersylla a 15mya o fewn ffiniau'r Parc. Gwaherddir reidio beiciau modur a beiciau cwad oddi ar y ffordd yn llwyr o fewn ffiniau'r Parc. Efallai na fydd modd i faniau a cherbydau masnachol barcio ar y llain os ydynt yn tresmasu ar y parth diogelwch o 3 metr.

Mae gan y Cyngor hawl absoliwt i ofyn i unrhyw un adael y parc ar unwaith.

### Gweithgareddau Cyfyngedig

- Dim gemau pêl (pêl-droed/crïced/pêl fas/hoci ac ati) ar y Safle. Mae'r Parc Gwledig ar gael at y diben hwn.
- Dim ymarfer golff, gan gynnwys swingiau ymarfer heb beli golff ar y safle;
- Dim rhaffau ac ati i swingio ar goed yn y parc;
- Dim balwnau dŵr na gynnu dŵr o fewn y safle gwersylla;
- Dim bwyta nac yfed yn y bloc amwynderau;
- Dim pyllau padlo na sleidiau dŵr ar y safle.
- Dim tân gwyllt na choelcerthi
- Ni ddylid gosod unrhyw strwythurau dros dro eraill ar unrhyw lain ar y safle heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.
- Ni chaniateir blychau storio allanol heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor.
- Ni ddylid cyflawni unrhyw waith hysbysebu na masnachu heb gael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys pob cerbyd.
- Ni ddylid gwneud unrhyw sŵn cyn 8.00am nac ar ôl 10.00pm, er mwyn peidio â tharfu ar bobl eraill.
- Mae'n rhaid i blant (o dan 16 oed) **BEIDIO** â chael eu gadael ar eu pennau eu hunain yn y parc.
- Mae rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain bob amser. **PEIDIWCH** â chaniatáu iddynt chwarae yn y bloc amwynderau neu o'i amgylch, na chwaith gerllaw unrhyw eiddo'r parc nac mewn unrhyw garafannau, cerbydau na lleiniau, na gerllaw rhwystr y fynedfa.
- Ni chaniateir defnyddio sgwteri a beiciau yn y bloc amwynderau neu o'i amgylch na rhwng y lleiniau eraill.
- Ni chaniateir defnyddio e-sgwteri yn y parc neu'r safle gwersylla ar unrhyw adeg.

- Ni fydd sŵn gormodol, iaith anweddus nac ymddygiad afreolus neu fygythiol yn cael eu goddef.
- Dylid defnyddio setiau teledu, radio ac unrhyw offer sain arall yn ystyriol yn ystod y dydd ac ni ddylai fod modd eu clywed y tu allan i'ch carafán, eich cartref modur neu eich pabell rhwng 10:00pm ac 8:00am.
- Ni chaniateir reidio beiciau o gwmpas lleiniau carafannau a phebyll.  
Dylech reidio beiciau ar hyd ffyrdd dynodedig yn unig. Rydym hefyd yn argymhell bod offer diogelwch priodol yn cael ei wisgo wrth feicio yn y parc.
- Mae'n rhaid i wersyllwyr sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ar y llwybrau a'r ffyrdd o ran cerbydau neu unrhyw bethau arall.
- **Ni chaniateir** defnyddio barbeciwiau tafladwy oni bai eu bod 300mm (1 droedfedd) oddi ar y llawr.
- Ni chaniateir defnyddio dronau, awyrennau model ac offer tebyg arall o fewn y safle gwersylla, na'r parc.
- Mae'n rhaid i'r holl offer, fel dyfeisiau nwy a thrydan, cerbydau, offer gwersylla ac ati, a gyflenwir neu a ddefnyddir gan wersyllwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol a'r holl ofynion diogelwch.
- Mae'n rhaid i gwsmeriaid beidio â gwerthu, neilltuo nac isosod eu hawl i gadw carafán/pabell yn y safle. Mae'r safle at ddefnydd personol yn unig.
- Ni chaiff unrhyw garafán/pabell ddangos unrhyw fath o hysbyseb, llun, poster na slogan heblaw am blaciau neu drosluniau'r gweithgynhyrchwr, ac eithrio gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.
- Ni chaniateir defnyddio pibelli dyfrhau.
- Ni chaniateir golchi ceir a charafannau.
- Cofiwch fod ymwelwyr eraill yma i fwynhau eu gwyliau, felly ymchwilir i unrhyw gwynion a wneir gan wersyllwyr eraill am iaith wael gan unrhyw un.

### Anifeiliaid anwes

Mae croeso i gŵn, ond mae'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser o fewn y safle gwersylla.
- Peidiwch â gadael eich ci heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir o amser.
- Mae'n rhaid i berchenogion cŵn sicrhau nad yw eu hanifeiliaid anwes yn aflonyddu ar ddefnyddwyr eraill y safle.
- Mae'n rhaid i faw damweiniol neu fel arall gael ei glirio ar unwaith a'i roi yn y biniau gwastraff cyffredinol a ddarperir.
- Os bydd ci'n cnoi unigolyn neu anifail arall, rhoddir gwybod i'r awdurdod priodol ac ymchwilir i'r mater yn unol â hynny.
- NI CHANIMATEIR cathod tŷ.

### Ysmygu

Mae'r holl adeiladau yn y parc yn amwynderau dim ysmygu.

### Alcohol

Ni ddylid yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus ar y safle, dim ond o fewn eich llain.

## **Sylweddau anghyfreithlon/Arfau ymosodol**

Ni chaniateir ichi ddod â sylweddau anghyfreithlon nac arfau ymosodol i'r parc. Os darganfyddir neu amheuir bod gennych unrhyw sylweddau anghyfreithlon; rhoddir gwybod am hyn i'r Heddlu.

## **Plant ar Goll**

Os bydd plentyn yn mynd ar goll, dylai'r rhieni neu'r gwarcheidwaid gysylltu â'r gwasanaethau brys os teimlant fod angen gwneud hynny. Cysylltwch ag unrhyw aelod o staff a fydd yn eich cynorthwyo hyd nes y bydd y gwasanaethau brys yn cyrraedd neu y bydd y plentyn yn cael ei ddarganfod.

## **Generaduron**

Ni chaniateir generaduron petrol/diesel heb ganiatâd ymlaen llaw gan staff y Cyngor, ac mewn unrhyw achos, dim ond o bryd i'w gilydd y gellir eu defnyddio drwy gydol y dydd ac ni ddylid eu defnyddio rhwng 10pm a 10.00am. Pan ddefnyddir generaduron petrol/diesel, mae'n rhaid iddynt fod o lefel desibel isel, o dan 60 desibel, ac yn addas i'w defnyddio ar safleoedd gwersylla/carafannau. Mae'n rhaid storio tanwydd mewn meintiau bychan ac mewn cynwysyddion bach a gymeradwyir at y diben hwn.

Gellir defnyddio'r generadur o bryd i'w gilydd ond mae defnydd parhaus ohono yn gyfyngedig i 2 awr ar un adeg, a dylid gadael bwlch o 1 awr o leiaf cyn ei ddefnyddio eto.

## **Tanau/Barbeciwiau**

Ni chaniateir tanau gwersyll agored ar unrhyw adeg yn y Parc a'r Safle Gwersylla. Caniateir barbeciwiau neu byllau tân bach sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain cyn belled ag y bo ganddynt glawr amddiffynnol a giard o'u hamgylch i atal llwch rhag chwythu ac nad ydynt yn aflonyddu ar bobl eraill. Ni chaniateir ichi osod barbeciwiau na phyllau tân bach yn uniongyrchol ar y tir. Mae'n rhaid diffodd barbeciwiau a phyllau tân yn llawn ar ôl eu defnyddio a gwaredu'r lludw mewn cynwysyddion priodol ar y safle. Peidiwch â gwaredu lludw yn y perthi nac ar dir y safle gwersylla neu'r Parc Gwledig.

## **Diogelwch Tân**

**NI CHANIMATEIR** tanau agored o unrhyw fath. Bydd unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n difrodi'r tir neu amgylchedd y Parc yn cael ei drin yn unol â'r manylion a amlinellir yn yr adran **DIFFYG CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU**.

Caniateir pyllau tân sydd wedi'u gorchuddio, a wnaed at y diben hwn – sydd â chlawr rhwylllog, ac sydd oddi ar y tir, ar ôl iddynt gael eu gwirio gan wardeiniaid y safle gwersylla.

Mae tân gwyllt, lanternau Tsieineaidd neu unrhyw beth tebyg wedi'u gwahardd yn y parc.

## **Os bydd tân mewn carafán neu babell neu yn y bloc amwynderau:**

- Gwnewch yn siŵr fod pawb yn gadael y safle
- Seiniwch y larwm
- Ffoniwch y frigâd dân (999) o'r ffôn agosaf neu gan ddefnyddio ffôn symudol.
- Gwrandewch ar yr holl gyfarwyddiadau gan aelodau staff a'u dilyn.

Dylai defnyddwyr y safle ymgynnull yn y man ymgynnull dynodedig agosaf.

Cofiwch eich bod mewn coetir sy'n tanio'n rhwydd iawn os yw'r amodau priodol yn bodoli.

Dilynwch y Gweithdrefnau Tân a arddangosir o amgylch y safle gwersylla.

Os bydd y parc yn cael ei wacáu, mae'n rhaid ichi ddilyn cyfarwyddiadau staff y Cyngor.

### **Defnyddio'r safle**

Caniateir atalfeydd gwynt generig cyn belled â'u bod yn llai na 5 metr o hyd fesul llain, eu bod yn cael eu cadw ymhell oddi wrth leiniau cyfagos a'u bod yn cael eu symud pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Gellir rhoi caniatâd ysgrifenedig i garafannau tymhorol ar ôl i'r atalfeydd gwynt gael eu harchwilio. Mae'n rhaid i'r polion fod yn fetel, â phigyn sydd o leiaf 9 modfedd, gydag offer cynnal.

Caniateir 1 babell yn unig o fewn yr ardal bebyll ddynodedig

Dim ond 1 adlen sy'n sownd i'r garafán a ganiateir fesul llain.

Bydd 2 randy ychwanegol, pabell gegin ac ati dim ond yn cael eu caniatáu os ceir caniatâd ysgrifenedig gan Warden y safle gwersylla. Bydd wardeiniaid y safle gwersylla'n cadarnhau p'un a roddir caniatâd ar ôl ymweld â'r safle.

Mae'n rhaid i gwsmeriaid gadw eu llain a'r cyfleusterau'n lân ac yn daclus yn ystod eu harhosiad a gadael y llain a'r cyfleusterau yn eu cyflwr gwreiddiol.

Caniateir i Garafannau Tymhorol gael dim mwy na 2 dwba bach o flodau ar eu llain.

Dim ond y perchennog, teulu, perthnasau agos a ffrindiau'r teulu a gaiff aros yn y garafán.

I sychu dillad, defnyddiwch gambrenni dillad sy'n bachu ar ffenestri yn unig neu lein ddillad sy'n troi ar gyfer gwersylla. Dylid symud y rhain pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, a'u rhoi o fewn ffiniau eich llain yn unig.

Ni ddylai unrhyw garafán gael ei defnyddio fel lle cysgu ar gyfer nifer fwy o bobl ar unrhyw adeg nag y mae wedi'i chynllunio i'w lletya.

Caniateir dim mwy na 6 ymwelydd fesul llain ar yr un pryd. Mae'n rhaid i ymwelwyr dalu i barcio yn y cae gyferbyn â mynedfa'r safle gwersylla yn y parc gwledig.

Caniateir un faner ar un polyn ar bob llain. Gosodir cyfyngiadau ar leiniau R1 i R9 oherwydd gweithgareddau marchogaeth.

Caniateir goleuadau ar bolion baner, ond mae'n rhaid eu diffodd erbyn 22:00 er mwyn peidio â tharfu ar wersyllwyr eraill.

Mae'n rhaid dangos eich cyfeirnod adnabod ar eich uned bob amser.

### **Rheoli plâu**

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw fermin neu unrhyw nythod picwns, rhowch wybod inni.

### **Rhoi gwybod am ddamweiniau ac argyfyngau**

Rhowch wybod i staff y Ganolfan Ymwelwyr neu i'r Warden am unrhyw damweiniau/digwyddiadau ar unwaith fel y gellir eu cofnodi a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

## Defnyddio cyfleusterau ac amwynderau

### Trydan

Y cwsmer sy'n gyfrifol am sicrhau bod cebl trydan y prif gyflenwad o'r man rhyng-gysylltu i'r uned yn ddiogel, a bod man rhyng-gysylltu eich gosodiad eich hun yn ddiogel.

Mae'r mannau rhyng-gysylltu'n cydymffurfio â Safon Brydeinig BS EN 60309-2.

Os, am unrhyw reswm, bydd y cyflenwad trydan i'r man rhyng-gysylltu yn methu oherwydd bai'r Cyngor, lle bynnag y bo modd byddwn yn eich symud i lain arall. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw drydan a gollir sy'n gyfrifoldeb neu a achosir gan drydydd parti ac sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

### Gweithrediadau Glanhau

Arddangosir amserau glanhau arferol (yn amodol ar feddiannaeth a gweithrediadau). Pan fydd gwaith glanhau'n cael ei wneud, bydd drysau priodol yn cael eu cloi ac arwyddion yn cael eu harddangos. Cysylltwch â staff ein safle gwersylla os bydd angen rhagor o bapur tŷ bach arnoch rhwng yr adegau glanhau.

### Gwaredu Gwastraff

**Rhowch eich sbwriel yn y biniau a ddarperir a chadwch ardaloedd biniau'n lân ac yn daclus.**

### Tipio Anghyfreithlon

**Ni chaniateir gwaredu beiciau, celfi nac eitemau trydanol. Gall unrhyw un sy'n gwneud hynny gael ei erlyn a'i ddirwyo am dipio anghyfreithlon.**

### Sbwriel Cyffredinol

Mae'n rhaid rhoi sbwriel mewn bag a'i waredu yn y biniau a ddarperir. Caiff y rhain eu gwacáu'n rheolaidd. Peidiwch â gadael gweddillion bwyd 'allan i'r adar' oherwydd bydd hyn yn denu fermin.

### Gwastraff Cemegol

Mae'n rhaid i'r holl wastraff tŷ bach cemegol gael ei fflysio i lawr pwyntiau gwastraff dynodedig Elsan.

### Ailgylchu

**Fel rhan o'n 'Polisi Gwyrdd', gellir ailgylchu deunyddiau yn y biniau dynodedig sydd wedi'u lleoli yn y storfa finiau/safle gwersylla. Caiff y biniau hyn eu gwacáu'n rheolaidd. Peidiwch â rhoi bagiau plastig nac eitemau na ellir eu hailgylchu yn y biniau hyn oherwydd y bydd hynny'n halogi'r cynnwys ac mae'n bosibl y gwrthodir eu casglu.**

### Gwastraff Glanweithiol

Darperir biniau glanweithiol yn yr holl dai bach i fenywod ac yn y tai bach i bobl anabl o'r ddau ryw. Darperir biniau cewynnau yn y bloc tŷ bach ar gyfer newid cewynnau.



## **Torri'r Gwair**

Bydd angen i Garafannau Tymhorol dorri'r gwair yn wythnosol o fewn yr ardal o amgylch y garafán/adlen ac o amgylch yr holl raffau canllaw, a'r ardal sy'n ymestyn oddeutu 2 droedfedd y tu allan i'r rhaffau canllaw.

Yn ystod eich ymweliad â ni, rydym yn disgwyl i'n holl ymwelwyr ailgylchu. Dilynwch y canllawiau yn eich pecyn croeso.

## **Ymwelwyr**

Codir ffi barcio ar y gyfradd arferol ar ymwelwyr â'r Parc, ac mae'n rhaid iddynt barcio yn y Parc. Ni fydd mynediad ar gael i gerbydau ymwelwyr i'r safle gwersylla. Ni chaniateir cerbydau ar y safle gwersylla ar ôl 10:00pm. Peidiwch â cheisio cael mynediad ar ôl yr amser hwn, gan y byddwch yn cael eich gwrthod. Parciwch o fewn cyffiniau'r parc tan ar ôl 8am y bore wedyn.

## **Adlenni**

Os bydd y tywydd yn wael, bydd yn rhaid tynnu adlenni i lawr er mwyn osgoi difrod i'ch eiddo chi neu i eiddo eraill.

## **Materion Cyfreithiol**

### **Difrod i'r safle**

Bydd unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn difenwi neu'n achosi difrod i unrhyw adeiladau, offer neu eiddo yn y parc yn cael ei droi allan a'i erlyn ar unwaith. Bydd y sawl sy'n hurio'r llain yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, achosion o dorri neu golli eiddo a achoswyd ganddo ef neu ei ymwelwyr i'r llain, neu i unrhyw rai o gyfleusterau'r parc neu i eiddo gwersyllwyr eraill. Bydd yr holl gostau'n cael eu codi ar huriwr y llain.

Pan fo eiddo gwersyllwyr eraill yn cael ei ddifrodi, bydd huriwr y llain yn gyfrifol am dalu'r gost honno yn uniongyrchol i'r gwersyllwr arall.

### **Colled, Difrod ac Anaf**

Gadewir eich cerbydau, eu hategolion a'u cynnwys ar eich menter eich hun. Ni fydd y Cyngor, ei staff na'i asiantau yn atebol am unrhyw eiddo sy'n cael ei golli, ei ddwyn neu'n cael difrod tra ei fod yn y parc, nac am unrhyw anaf, damwain neu anffawd i unrhyw unigolyn yn y parc, oni bai yr achoswyd neu y cyfrannwyd at hynny gan unrhyw esgeulustod neu ddiffyg ar ran y Cyngor neu ei weithwyr. Mae'n rhaid i gwsmeriaid sicrhau bod eu heiddo'n ddiogel ac wedi'i yswirio'n llawn rhag unrhyw ddigwyddiad annisgwyl.

Caiff pob llain ei neilltuo ar gyfer y cyfnod a archebir yn unig ac ni fydd unrhyw hawl i ddeiliadaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

### **Amodau Neilltuo Lle**

Mae'n rhaid i bob cwsmer gydymffurfio â'n hamodau neilltuo lle (y darperir copi ohonynt wrth ichi neilltuo lle, ac sydd ar gael yn y Ganolfan Ymwelwyr).

**Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid, i addasu, i ychwanegu at neu i dynnu yn ôl y Rheolau a'r Rheoliadau hyn heb rybudd ymlaen llaw.**

## **Rhifau Ffôn Defnyddiol:**

|                                                                                                              |              |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Pen-bre                                                                       | 01554 742435 |
| Warden Nos (rhif ffôn symudol) hyd at 20.00 o'r gloch                                                        | 07791 010480 |
| Warden ar alwad – ar gyfer argyfyngau yn unig rhwng 20:00 a 8:00                                             | 07795 646322 |
| Gorsaf Heddlu Porth Tywyn                                                                                    | 01267 222020 |
| Ysbyty Cyffredinol Glangwili,<br>Heol Dolgwili, Caerfyrddin<br>SA31 2AF (Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr) | 01267235151  |
| Galw Iechyd Cymru                                                                                            | 0845 46 47   |

Mewn argyfwng, neu os bydd tân, neu argyfwng meddygol, ffoniwch 999.